# Adnabod ac Ymateb i hiliaeth a stereoteipio hiliol

Yn yr ysgol **mae hiliaeth yn digwydd pan fydd disgybl, neu athro, yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd lliw eu croen, eu cenedligrwydd, eu crefydd neu gred, neu eu diwylliant.**

Gall ymddygiad gwahaniaethol hiliol amrywio o fod yn cam-drin geiriol, bwlio ar-lein, cam-drin corfforol a gwahardd o weithgareddau. Darganfuwyd ymchwil DCCiH nad yw 1/3 o athrawon yn teimlo’n hyderus y gallent adnabod hiliaeth yn y dosbarth ac nid yw bron 4/5 yn teimlo’n hyderus wrth ymateb i ddisgyblion sydd wedi dioddef na chyflawnwyr hiliaeth. Mae'r daflen hon yn darparu cymorth i athrawon iddynt allu adnabod ac ymateb i ymddygiad hiliol. Mae'r holl enghreifftiau a ddarparwyd wedi digwydd yn ysgolion Cymru yn 2016.

## Sut y gellir adnabod hiliaeth yn yr ysgol?

- ✓ Galw enwau, sarhau a jôcs hiliol *e.e. Disgybl Bl9 yn gwaeddi Allahu Akbar wrth daflu bag yn y coridor.*
- ✓ Gwrthod cydweithio gyda disgyblion oherwydd eu tarddiad ethnig *e.e. Plentyn Bl4 gwyn yn dweud wrth ddisgybl du nad ydynt yn gallu cyd-chwarae gan fod ganddynt groen budr.*
- ✓ Ymddygiad cythruddol fel gwisgo bathodynnau neu gribau. *e.e. Disgybl Bl7 yn parhau i dynnu lluniau o swastikas ar ei law ar ôl iddo gael ei addysgu ynghylch pam nad yw hynny'n briodol.*
- ✓ Gwawdio disgybl ar sail gwahaniaethau crefyddol neu ddiwylliannol, *e.e. Tynnu twrban oddi ar ben disgybl Sikhaidd ym Mlwyddyn 8.*
- ✓ Sylwadau hiliol nad ydynt yn gysylltiedig â’r drafodaeth yn y gwersi *e.e. Disgybl Bl5 yn gweiddi 'rhaid lladd pob Mwslim' wrth ddysgu am feirdd Affricanaidd.*
- ✓ Annog eraill i ymddwyn mewn ffordd hiliol*. e.e. Plentyn Bl7 yn cael dau ffrind i fynd at ddisgyblion sydd â threftadaeth o Ddwyrain Ewrop a dweud wrthynt y dylent fynd yn ôl o ble daethant*.
- ✓ Ymosodiad corfforol neu fygythiad a cham-drin geiriol. *e.e. Disgybl Bl9 yn targedu disgyblion â threftadaeth Asiaidd a’u galw’n ‘Pakis’ ‘Terfysgwyr’ tra'n eu bygwth yn gorfforol.*

## Beth os nad oeddent yn gwybod beth yr oeddynt yn ei ddweud?

Nid yw unrhyw ymddygiad gwahaniaethol neu stereoteipio hiliol yn briodol yn yr ysgol, hyd yn oed pan mae plentyn yn dweud mai tynnu coes neu jôc oedd e, hyd yn oed pan mae disgybl y tybiwch iddo gael ei herlid yn dweud wrthych mai tynnu coes oedd yn digwydd. Diffiniad digwyddiad hiliol yw **"unrhyw ddigwyddiad sy'n cael ei ystyried yn hiliol gan y dioddefwr neu unrhyw berson arall."** Os ydych yn caniatáu un neu ddau ddisgybl i wneud jôc am stereoteipiau hiliol yr ydych mewn gwirionedd yn normaleiddio ymddygiad gwahaniaethol. Er efallai na fydd y disgyblion hynny yn meddwl unrhyw beth o'r sylwadau, gall disgyblion eraill deimlo eu bod wedi dioddef o wahaniaethu yn eu herbyn. Nid yw diniweidrwydd y bwriad yn newid yr effaith mae'r geiriau yn gallu ei gael. Trwy anwybyddu ymddygiad gwahaniaethol neu stereoteipio hiliol, rydych yn gosod y cynsail ei bod yn iawn i drin rhywun yn llai ffafriol oherwydd eu lliw croen, cenedligrwydd, crefydd neu gred, neu eu diwylliant. Yr ydych hefyd yn dweud wrth y dioddefwr a amheuir ei bod yn dderbyniol i dderbyn gwahaniaethu ar sail hil.

## Sut dylwn i ymateb?

| Cyflawnwr | Dioddefwr | Gwyliedydd |
|---|---|---|
| ✓ Esbonio'n glir ac yn bwyllog pam roedd yr ymddygiad yn anghywir.<br>✓ Osgoi cywilyddio'r ymddygiad; ni fydd rhai disgyblion yn ymwybodol ei fod yn annerbyniol.<br>✓ Ceisiwch sicrwydd bod y disgybl(ion) yn deall eu camweddau.<br>✓ Cael ymddiheuriad.<br>✓ Rhoi gwybod i'r dosbarth a'r pennaeth yn ysgrifenedig ac ar lafar (cadw cofnod o hyn) er mwyn iddynt adrodd i'r Awdurdod Lleol.<br>✓ Os bwriad y cyflawnwr oedd brifo'r dioddefwr yna rhaid dilyn Polisi Ymddygiad yr Ysgol. | ✓ Cadarnhau'n glir ac yn bwyllog pam roedd yr ymddygiad yn anghywir.<br>✓ Rhowch sicrwydd a chynnig y cyfle i siarad am y peth a'u teimladau. Gall hyn fod nes ymlaen gan fo dioddefwyr o gam-drin hiliol weithiau'n amharod i siarad am y profiad yn syth ond gall siarad amdano yn ddiweddarach.<br>✓ Anogwch y dioddefwr i adrodd am unrhyw ddigwyddiadau yn y dyfodol.<br>✓ Rhoi gwybod i'r dosbarth a'r pennaeth yn ysgrifenedig ac ar lafar (cadw cofnod o hyn) ac egluro sut y deliwyd a'r digwyddiad. | ✓ Sicrhau bo unrhyw un sy'n gwrando neu wedi clywed yn gwybod fod y geiriau a'r gweithredoedd yn anghywir ac yn annerbyniol. |

## Sut ydw i'n herio disgyblion yn effeithiol?

Mae'n well herio disgybl yn hytrach nag ymdrin â'r sefyllfa yn anuniongyrchol drwy ei roi i rywun arall i'w wneud, neu dynnu'n ôl o sgwrs anodd yn gyfan gwbl. Gall rhai awgrymiadau gynnwys aralleirio, cwestiynu agored a darparu naratifau croes neu gyfochrog i gynyddu dealltwriaeth neu empathi. Isod ceir enghraifft o sut i herio disgybl sydd wedi stereoteipio rhywun yn hiliol, yn yr achos hwn person Tsiec.

| Sylwadau disgyblion | Ymateb yr athro |
|---|---|
| *1. Ddaru berson Tsiec ddwyn fy meic ar y penwythnos!*<br>*2. Do, roedd yn feic newydd hefyd!*<br>*3. Na.*<br>*4. Dywedodd fy nhad wrtha'i!*<br>*5. Wel, na.*<br>*6. Dwi ddim yn gwybod mewn gwirionedd.* | *1. Ddaru berson Tsiec ddwyn dy feic?!*<br>*2. Dyna drist, nes di weld y person ddaru ei ddwyn?*<br>*3. Diddorol, sut ti'n gwybod pwy oedd yn gyfrifol?*<br>*4. O, felly ddaru dy dad weld pwy oedd yn gyfrifol?*<br>*5. Felly sut wyt ti'n gwybod o ble roedd y person yn dod?*<br>*6. Diddorol, felly mae'n bosib nid person Tsiec ddaru ddwyn dy feic.* |